**Cyfeirnod:** IR822

**Dyddiad cyhoeddi:** 14 Ebrill 2022

# Telathrebu a Rhwydweithiau

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 22 Mawrth 2022, lle gofynnoch am wybodaeth ynghylch telathrebu a rhwydweithiau.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn print trwm, gan nodi ein hymatebion cyfatebol:

**Contract 1 - Gwasanaethau Teleffoni/Llais (Analog, ISDN VOIP, SIP ac ati)**

**1. Darparwr Gwasanaethau Teleffoni/Llais - A allwch chi roi enw'r cyflenwr ar gyfer pob contract i mi.**

Darperir yr holl wasanaethau teleffoni heblaw ffonau symudol o dan gontract gyda Gamma Telecom Ltd trwy Microsoft Teams trwy gysylltiad "llwybr uniongyrchol".

**2.Gwasanaethau Teleffoni/Llais - Dyddiad Adnewyddu'r Contract - rhowch ddiwrnod, mis a blwyddyn (mae mis a blwyddyn hefyd yn dderbyniol). Os mai contract treigl yw hwn, rhowch ddyddiad treigl y contract i mi. Os oes mwy nag un cyflenwr, rhannwch y dyddiadau adnewyddu yn ôl faint bynnag o gyflenwyr sydd**

Dechreuodd y contract ar 1 Chwefror 2021 am 24 mis. Mae opsiwn i'r prynwr ymestyn hyn am ddau gyfnod o hyd at 12 mis yr un.

**3.. Gwasanaethau Teleffoni/Llais - Hyd y Contract- nifer y blynyddoedd yn y contract ar gyfer pob darparwr, a fyddech cystal â chynnwys unrhyw estyniadau i gontractau hefyd.**

Gweler yr ateb i (2) uchod.

**4. Gwasanaethau Teleffoni/Llais - Math o Linellau - A allwch chi rannu'r math o linellau fesul pob cyflenwr? PSTN, Analog, SIP, ISDN, VOIP**

Gweler yr ateb i (1) uchod.

**5. Gwasanaethau Teleffoni/Llais, Nifer y Llinellau / Sianeli / Prif linellau SIP - A allwch chi rannu nifer y llinellau fesul pob cyflenwr? Prif linellau/cysylltiadau SIP, PSTN, Analog, ISDN**

Gweler yr ateb i (1) uchod.

**Contract 2 - Gwasanaethau galwadau sy'n dod i mewn ac yn mynd allan.**

Nid oes gennym unrhyw gontract ar wahân sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

**Contract 3 - Darparwr band eang y sefydliad.**

Nid oes gennym unrhyw gontract i ddarparu llinellau band eang ar hyn o bryd.

**Contract 4 - Contractau sy'n ymwneud â gwasanaethau Rhwydwaith Ardal Eang [WAN], gallai hyn hefyd gynnwys gwasanaethau rhwydwaith HSCN.**

**14. Darparwr WAN - rhowch y prif gyflenwr(wyr) i mi, os nad oes unrhyw wybodaeth ar gael, a allwch chi roi mewnwelediad pellach i'r rhesymau dros hynny?**

Darperir hyn o dan gontract Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) Llywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth am PSBA ar gael ar eu gwefan: https://www.psba.llyw.cymru/

**15.Dyddiad Adnewyddu'r Contract WAN - rhowch ddiwrnod, mis, a blwyddyn (mae mis a blwyddyn hefyd yn dderbyniol). Os mai contract treigl yw hwn, rhowch ddyddiad treigl y contract i mi. Os oes mwy nag un cyflenwr, rhannwch y dyddiadau adnewyddu yn ôl faint bynnag o gyflenwyr sydd**

Gweler yr ateb i (14) uchod.

**16. Disgrifiad o'r Contract: A allwch chi roi disgrifiad byr i mi ar gyfer pob contract**

Gweler yr ateb i (14) uchod.

**17. Nifer y safleoedd: Nodwch nifer y safleoedd y mae'r WAN yn eu cynnwys. Bydd brasamcan yn dderbyniol.**

Tri safle.

**18. Gwariant Cyfartalog Blynyddol ar WAN- Gwariant cyfartalog blynyddol ar gyfer pob darparwr WAN. Mae amcangyfrif neu gyfartaledd yn dderbyniol.**

Y taliadau ar gyfer 2021/22 oedd tua £12,000.

**19. Ar gyfer pob contract WAN, a allwch chi roi gwybodaeth i mi am sut y cafodd hyn ei gaffael, yn enwedig ynghylch y caffael hwnnw a ddefnyddiodd fframweithiau, a fyddech cystal â rhoi cyfeirnod y fframwaith i mi.**

Gweler yr ateb i (14) uchod.

**20. Cyswllt Mewnol: A fyddech cystal ag anfon ei fanylion cyswllt llawn ataf gan gynnwys rhif cyswllt ac e-bost a theitl swydd ar gyfer yr holl gontractau uchod.**

Rheolir yr holl gontractau gan ein Hadran Gwasanaethau Busnes yn Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, Business.Services@audit.wales, 02920 320500. Gellir cyfeirio ymholiadau at y Pennaeth Gwasanaethau Busnes,

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,
Y Swyddog Gwybodaeth